**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA – P/CS/7437/16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Lynne.Neagle@cynulliad.cymru

9fed Tachwedd 2016

Annwyl Lynne

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 2 Tachwedd, cytunais roi gwybod i'r Pwyllgor am gymorth ariannol i Chwarae Cymru yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf bod chwarae'n rhan bwysig iawn o fywydau plant a'i fod yn sicrhau manteision o ran eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith bod Chwarae Cymru'n cefnogi Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r sector chwarae wrth greu Cymru sy'n annog y cyfle i chwarae, er budd ein plant a'u teuluoedd.

Rydym wedi rhoi cyllid i Chwarae Cymru i gyflawni'r swyddogaeth honno ers sawl blwyddyn, ac rwy'n ystyried parhau i roi cymorth ariannol i'r sefydliad. Fodd bynnag, ni ellir gwneud ymrwymiad o ran hynny hyd nes i gyllideb Llywodraeth ar gyfer 2017-18 gael ei chytuno fis nesaf. Ond, gwnaf yn siŵr bod y Pwyllgor yn cael gwybod y newyddion diweddaraf am y mater hwn.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.